



Tros Gynnal Plant  
Standing up for Children

## SWYDD-DDISGRIFIAD

**TEITL Y SWYDD:** *Swyddog Ymgysylltu*

**LLEOLIAD Y SWYDDFA:** *Gorllewin Cymru / Gogledd Cymru*

**RHEOLWR LLINELL:** *Rheolwr Tîm*

**CYFRIFOLDEBAU GORUCHWYLIO:** *Dim*

### **PRIF DDIBEN Y SWYDD:**

Wedi'i ariannu gan Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru, bydd y prosiect 3 blynedd hwn yn darparu gwasanaeth i gefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru (plant, pobl ifanc ac oedolion) i fanteisio ar eu hawliau a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Bydd gan y tîm Teithio Ymlaen Reolwr Tîm gyda thri aelod ychwanegol o' tîm yn ne, gorllewin a gogledd Cymru, a phencadlys y tîm yng Nghasnewydd.

Bydd Teithio Ymlaen yn cynnig:

- Cyngor ac eiriolaeth - Cefnogaeth drwy linell gyngor (oriau swyddfa) a sesiynau allgymorth cymunedol, gan weithio mewn partneriaeth a hyfforddi darparwyr prif ffrwd i gryfhau eu gwasanaethau eu hunain i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Hawliau a Chyfranogiad - Cefnogaeth i alluogi lleisiau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael eu clywed a'u cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd rhanbarthol ar gyfer aelodau o'r gymuned (pobl ifanc ac oedolion) ac yn helpu i ddatblygu rhwydwaith ymgynghori cymunedol lle y gall y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill glywed am faterion sy'n flaenoriaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu - Cymorth i herio sylw negyddol yn y cyfryngau a chreu naratif mwy cadarnhaol drwy ein partneriaeth gyda Travellers Times, gan gynnwys sefydlu adnodd newydd ar y we ar gyfer Cymru gan ac ar ran y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chynnig gweithdai eiriolaeth gyda'r cyfryngau. Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd a Chymorth ar Droseddau Casineb i sicrhau bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael mwy o wybodaeth a hyder i adrodd ar droseddau casineb a chael y gefnogaeth gywir.

Bydd Swyddogion Ymgysylltu yn gweithredu fel rhan o dîm sy'n gweithio i ddatblygu a darparu gwasanaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru yn unol â Chynllun y Prosiect.

## **DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu elfennau o waith y Gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Tîm
2. Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi aelodau a gweithwyr o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu a chyflawni'r canlyniadau a ddymunant
3. Gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod eu lleisiau'n ganolog i'r broses
4. Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymysg y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
5. Cysylltu a thrafod gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau, disgwyladau a chyfraniadau yn cael eu trefnu'n glir a'u deall ac y gweithredir arnynt
6. Sicrhau bod cyfle cyfartal ac ymarfer gwrthwahaniaethol yn cael ei gynnal, a bod safonau Tros Gynnal Plant yn cael eu dilyn yn hyn o beth.
7. Cynorthwyo Rheolwr y Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith canlyniadau y cytunwyd arnynt gan fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
8. Sicrhau bod pryderon yn ymwneud â Diogelu yn cael eu nodi a bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud ynghylch asesu risg ac atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol / asiantaethau priodol eraill dan oruchwyliaeth y Rheolwr Tîm.
9. Sicrhau bod ymyriadau yn cael eu rheoli o fewn y dyraniad y cytunwyd arno.
10. Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddol y Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Tros Gynnal Plant.
11. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Tros Gynnal Plant ar gofnodi, rheoli data ac amddiffyn plant
12. Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â'r wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn unol â pholisïau Tros Gynnal Plant
13. Rhwydweithio'n briodol o fewn y gymuned
14. Cyfrannu at fforymau polisi a chynllunio lleol fel y bo'n briodol.
15. Gweithio mewn dull cydweithredol.
16. Cymryd cyfrifoldeb dros eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymgymryd â hyfforddiant priodol yn ôl yr angen.
17. Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai'r Sefydliad yn rhesymol ofyn i chi eu cyflawni ac sy'n gyson â gradd y swydd.

## **AMODAU GWAITH**

### **Gorllewin Cymru 22.5 awr / Gogledd Cymru 30 awr**

Bydd yn ofynnol gweithio y tu allan i oriau ac mae hyn yn gofyn am agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith. Efallai y bydd gofyn i chi weithio ar benwythnosau ac aros oddi cartref dros nos yn achlysurol er mwyn mynd ar gyrsiau hyfforddi / i gynadleddau / digwyddiadau ac ati.

Teithio'n rheolaidd i amrywiol leoliadau ledled Cymru ac weithiau y tu allan i Gymru. Mae hyn yn gofyn am drwydded yrru lawn a'r defnydd o gludiant.

### ***Cymwyseddau craidd (Yn berthnasol i bob aelod o staff)***

**Cyfathrebu'n Effeithiol:**

Mynegi gwybodaeth a syniadau mewn ffordd glir, cryno a chywir; gwranddo'n astud ar bobl a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu

**Parchu Gwahaniaethau Unigol a Diwylliannol:**

Dangos y gallu i weithio'n adeiladol gyda phobl o bob diwylliant, rhyw a chefnidir

**Gweithio fel Rhan o Dîm:**

Datblygu perthynas waith effeithiol gyda chydweithwyr ac aelodau o'r tîm ar draws y sefydliad cyfan

**Hunanreoli:**

Rheoli eich ymddygiad eich hun mewn modd sy'n myfyrio ar eich hunan a chwilio am gyfleoedd dysgu parhaus a chyfleoedd twf proffesiynol

**Sicrhau Canlyniadau:**

Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn dull amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ac yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt

**Croesawu Newid:**

Yn agored i ddulliau a syniadau newydd, yn ymateb yn gadarnhaol i newid ac yn addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd.



Tros Gyngnal Plant  
Standing up for Children

## MANYLEB PERSON

(Yn benodol i'r rôl hon)

*Pan fyddwch yn llenwi eich ffurflen gais, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys tystiolaeth o sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf/gofynion hanfodol a restrir. Os byddwch yn bodloni unrhyw feini prawf dymunol, dylech gynnwys tystiolaeth o hyn hefyd. Cyn cwblhau'r ffurflen gais, dylech sicrhau eich bod yn darllen y 'Canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais' yn ogystal â'r 'Canllawiau ar ysgrifennu datganiadau cymhwysedd ar gyfer cais am swydd'.*

<b>GOFYNION:</b>	<b>HANFODOL / DYMUNOL</b>	<b>SUT Y CAIFF EI FESUR</b> Ffurflen Gais (Ff) Cyfweiliad (C) Dogfennaeth (D) Prawf (P)
<b>Bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos tystiolaeth o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn ymwneud â:</b> (Gweler Atodiad 1)		
<b>Cefnogi Plant / pobl ifanc ac oedolion o fewn y Gymuned</b>  <i>Perfformiad</i> <ul style="list-style-type: none"><li>Sut y byddwch yn sefydlu, datblygu a chynnal perthynas gyda phlant / pobl ifanc ac oedolion</li></ul>	H	Ff-C
<i>Gwybodaeth a Dealltwriaeth</i> <ul style="list-style-type: none"><li>Yr hyn yr ydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am: Hawliau / Mynd i'r afael â gwahaniaethu</li></ul>	H	Ff-C
<b>Eiriolaeth</b>  <i>Perfformiad</i> <ul style="list-style-type: none"><li>Sut yr ydych yn gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc a / neu oedolion i gynrychioli eu dewisiadau a'u hanghenion.</li></ul>	H	Ff-C
<i>Gwybodaeth a Dealltwriaeth</i>		

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr hyn yr ydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am: Hawliau i eiriolaeth</li> <li>• Y gwahaniaeth rhwng eiriolaeth a chyngor</li> </ul> <p><b>Cyfranogi</b></p> <p><i>Perfformiad</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut y byddwch yn ymgymryd â gweithgareddau cyfranogi gyda phlant / pobl ifanc a / neu oedolion</li> </ul> <p><i>Gwybodaeth a Dealltwriaeth</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr hyn yr ydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am: Rwystrau i gyfranogi yn arbennig o fewn y gymuned Sipsiwn, Roma, Teithwyr</li> </ul>	<p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>H</p>	<p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p>
<p><b>CYMWYSTERAU</b></p> <p>Cymhwyster Eiriolaeth Annibynnol (neu barodrwydd i weithio tuag at hynny)</p> <p>Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel lechyd ac Addysg.</p>	<p>H</p> <p>D</p>	<p>Ff - D</p> <p>Ff-C</p>
<p><b>PROFIAD</b></p> <p>Gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan gynnwys diogelu</p> <p>Meithrin perthnasoedd, partneriaethau, gwaith amlasiantaeth, datblygu cymunedol</p> <p>Cynllunio, arwain a chyflwyno darnau o waith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a / neu oedolion mewn modd cyfranogol</p> <p>Gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr</p> <p>Darparu gwasanaethau cyngor / eiriolaeth</p>	<p>H</p> <p>H</p> <p>H</p> <p>D</p> <p>D</p>	<p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p> <p>Ff-C</p>
<p><b>ARALL</b></p> <p>Trwydded Yrru Lawn</p> <p>Y gallu i siarad Cymraeg</p>	<p>H</p> <p>D</p>	<p>Ff</p> <p>Ff</p>

<b>Dylech ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol a chymaint â phosibl o'r meini prawf dymunol a nodir yn y golofn ar y dde wrth ateb C1 y Ffurflen Gais</b>	
	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o'ch profiad yn y meysydd canlynol:</b>
<b>A. Profiad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan gynnwys diogelu - H</li> <li>• Meithrin perthnasoedd, partneriaethau, gwaith amlasiantaeth, datblygu cymunedol - H</li> <li>• Cynllunio, arwain a chyflwyno darnau o waith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a / neu oedolion mewn modd cyfranogol - H</li> <li>• Gwaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr - D</li> <li>• Darparu gwasanaethau cyngor / eiriolaeth - D</li> </ul>

***ATODIAD 1 - Swyddog Ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr***

***Profiad***

***Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth***

<b>Mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ganlynol yn hanfodol ar gyfer y swydd. Bydd angen i chi ddangos y dystiolaeth yn y golofn ar y dde wrth ateb Cwestiynau 2-7 ar y Ffurflen Gais</b>
<b>Cynorthwyo Plant a Theuluoedd yn y Gymuned</b>

<b>B. Perfformiad</b>	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o -</b>
Sefydlu, datblygu a chynnal perthynas gyda phlant / pobl ifanc ac oedolion	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut yr ydych wedi cyfathrebu gyda phlant / pobl ifanc a / neu oedolion sy'n eich galluogi i greu perthynas effeithiol</li> </ul>
<b>C. Gwybodaeth a dealltwriaeth</b>	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o -</b>
Hawliau / Mynd i'r afael â gwahaniaethu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth rydych yn ei wybod ac yn ei ddeall am y gofynion cyfreithiol a'r gofynion yn y gweithle yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau</li> </ul>

<b>Eiriolaeth</b>	
<b>D. Perfformiad</b>	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o -</b>
Weithio mewn partneriaeth â phlant / pobl ifanc a / neu oedolion i gynrychioli eu dewisiadau a'u hanghenion.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut yr ydych wedi galluogi plentyn / person ifanc neu oedolyn i gael ei eu llais wedi'i glywed</li> </ul>
<b>E. Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b>	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o -</b>
Eiriolaeth a Chyngor	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth rydych chi'n ei wybod ac yn ei ddeall am y gwahaniaeth rhwng eiriolaeth a chyngor</li> </ul>

<b>Cyfranogi</b>	
<b>F. Perfformiad</b>	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o -</b>
Gynnal gweithgareddau cyfranogi gyda phlant / pobl ifanc neu oedolion	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut rydych wedi hwyluso cyfranogiad plant / pobl ifanc neu oedolion</li> </ul>
<b>G. Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b>	<b>Rydym yn edrych am dystiolaeth o -</b>
Gyfranogi	

- |  |  |
|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Yr hyn yr ydych yn ei wybod am rwystrau i gyfranogi yn arbennig o fewn y gymuned Sipsiwn, Roma, Teithwyr</li></ul> |
|--|--|